| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **10 EBRILL 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO - ADRODDIAD AR YR ADOLYGIAD O EFFEITHOLRWYDD 2013/14** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **RHEOLWR ARCHWILIO** |
| **GWEITHREDU:** | **DIM** |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys yn 3.4.8.1.1 (ix) ofyniad 'i ddarparu adroddiad ar gyfer cyfarfod blynyddol y Cyngor ar ei weithgareddau am y flwyddyn'.

**1.2** Yn Argraffiad 2013 o Ganllawiau Ymarferol CIPFA ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu, manylir ar arfer da o ran swyddogaethau craidd Pwyllgor Archwilio ac yn y canllawiau hynny cyfeirir at fanteisio cynnal hunanasesiad rheolaidd o effeithiolrwydd y Pwyllgor. Awgryma'r canllawiau y dylid defnyddio hunanasesiad o'r fath i gefnogi'r gwaith o gynllunio rhaglen waith y pwyllgor a chynlluniau hyfforddi ac, yn ogystal, fel sylfaen ar gyfer adroddiad blynyddol y Pwyllgor i'r Cyngor.

**1.3** Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, felly, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cynnal Gweithdy Blynyddol sy'n cynnwys adolygiad o'i effeithiolrwydd yn ystod y flwyddyn gyfredol gyda golwg ar gynnwys y canlyniadau yn yr adroddiad blynyddol i'r Cyngor. Mae'r Gweithdai hyn yn seiliedig ar ganllawiau ynghylch arferion gorau ac, yn benodol eleni, ar Restrau Gwirio CIPFA - Hunanasesu Arfer Dda a Gwerthuso Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio sydd wedi eu cynnwys yn Argraffiad 2013 o Ganllawiau Ymarferol CIPFA ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu.

**1.4** Mae 3.4.8.1.3 cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio'n dweud 'bydd y Pwyllgor hefyd yn cynghori ar Bolisi'r Cyngor ar gyfer Atal Twyll a Llygredd, gan gynnwys (i) adolygu effeithiolrwydd y polisi. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Pwyllgor Archwilio, fel rhan o'r adolygiad hwn, wedi defnyddio Rhestrau Gwirio o arferion da mewn perthynas â Mesurau Gwrth-dwyll a gwnaeth hynny eto yn 2013/14.

**1.5** Cynhaliwyd yr adolygiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a'i drefniadau gwrth-dwyll am 2013/14 ar 28 Ionawr 2014 yn yr Oriel yn Llangefni.

Daeth tri o Aelodau'r Pwyllgor Archwilio i'r gweithdy gan gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor ac Arweinydd y Cyngor a oedd wedi cael gwahoddiad i'r gweithdy fel rhan o fwriad y Pwyllgor i godi ymwybyddiaeth ar draws y Cyngor mewn perthynas â'r Pwyllgor a'i waith.

## 2. EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

**2.1** <u>CIPFA – Hunanasesiad o Arfer Dda:</u> Mae canlyniadau'r hunanasesiad y Gweithdy o Arfer Dda'r Pwyllgor Archwilio wedi eu cynnwys yn Atodiad A ar ffurf Rhestr Wirio CIPFA – Hunanasesiad o Arfer Dda.

**2.2** At ei gilydd, roedd hunanasesiad y Pwyllgor Archwilio o'i berfformiad yn erbyn arfer da yn gadarnhaol ac ystyriwyd mai dim ond 3 o'r 20 arfer da oedd ddim yn cael eu cyflawni gan y Pwyllgor a bod modd gwella 8 arall o'r 20. Ystyriwyd bod y prif wendidau'n ymwneud â'r isod:-

- Pwrpas a Llywodraethiant y Pwyllgor Archwilio -
  Roedd y gweithdy'n teimlo y gellid ymestyn 'pwrpas' y Pwyllgor fel y caiff ei nodi yn y cylch gorchwyl yn unol â chanllawiau CIPFA er mwyn darparu mwy o wybodaeth ar gyfer gweddill y Cyngor a gwella ei ddealltwriaeth o swyddogaeth y Pwyllgor;

  Oherwydd bod y gweithdy yn teimlo ei bod yn anodd penderfynu a oedd y Pwyllgor yn gwneud gwahaniaeth ac yn herio digon yn y meysydd iawn, penderfynwyd y dylid cael gafael ar galendrau Pwyllgorau Archwilio mewn awdurdodau eraill yng Nghymru i bwrpas cymharu â bod Aelodau'r Pwyllgor yn ceisio mynychu Pwyllgorau Archwilio mewn Cynghorau eraill a vice versa er mwyn nodi unrhyw arferion da mewn awdurdodau eraill.

  Daeth y gweithdy i'r casgliad nad oes ar hyn o bryd unrhyw drefniadau ffurfiol ar gyfer dal y Pwyllgor yn atebol am ei berfformiad ac i ddarparu sicrwydd ei fod yn gweithredu'n foddhaol. Dyma pam, mewn gwirionedd, yr oedd y broses hunanasesu mor bwysig. Ym marn y gweithdy, roedd rôl i SAC yn hyn o beth a ddylid gofyn iddynt ddarparu adborth ar ei berfformiad i'r Pwyllgor yn rheolaidd.

- Swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio
  Ym marn y gweithdy, dylai cylch gorchwyl y Pwyllgor gynnwys yn benodol adolygiad o ran sicrhau gwerth am arian a'r gwerth gorau yn y Cyngor.

  Roedd y gweithdy o'r farn hefyd y dylid cryfhau'r cylch gorchwyl o ran darparu sicrwydd dros y fframwaith sicrwydd yn ei chyfanrwydd.

  Roedd y gweithdy'n teimlo nad oedd modd, yn yr amser a oedd ar gael mewn pwyllgorau, i sicrhau ei fod yn diwallu'r cyfan o'i swyddogaethau fel y cânt eu nodi yn y cylch gorchwyl, yn arbennig felly ei swyddogaethau craidd. Awgrymwyd y dylid ystyried cyfyngu rhaglen y Pwyllgor i feysydd blaenoriaeth gan sicrhau digon o amser i adolygu'r rhain yn fanwl.

  Ym marn y gweithdy, gallai wneud mwy o ran gweithio gyda Phwyllgorau eraill i ddarparu sicrwydd ar faterion sy'n rhan o'i swyddogaethau craidd. Er enghraifft, gweithio'n agosach gyda'r Pwyllgor Safonau o ran moeseg a derbyn ceisiadau gan Bwyllgorau eraill a chan y Cyngor ar faterion sy'n ymwneud â risgiau i'r Awdurdod. Byddai hyn yn cynnwys y modd y mae'r Awdurdod yn delio gydag adroddiadau pwysig.

**2.3** Asesu Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio: - Nid oedd gan y gweithdy ddigon o amser i ystyried yn llawn a thrafod y rhestr wirio ar gyfer Asesu Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio yn y gweithdy. Roedd y rhestr wirio wedi cael ei chylchredeg eisoes gyda rhaglen y gweithdy i holl Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a'r sawl a wahoddwyd i'r gweithdy.

**2.4** Roedd y Rheolwr Archwilio wedi cwblhau copi o'r rhestr wirio er mwyn nodi'r meysydd hynny lle yr oedd gan y Pwyllgor, yn ei farn ef, gryfderau a'r meysydd hynny y gellid eu gwella. Mae'r rhestr wirio a gwblhawyd gan y Rheolwyr Archwilio ynghlwm yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

**2.5** Yn asesiad y Rheolwr Archwilio o effeithiolrwydd y Pwyllgor, nodwyd y meysydd canlynol y gall y Pwyllgor ystyried eu gwella yn 2014/15:-

- Cefnogi Trefniadau ar gyfer Rheoli Risg
  Er bod y Pwyllgor Archwilio wedi cefnogi sefydlu fframwaith Rheoli Risg cadarn sydd wedi ymwreiddio'n llawn yn yr Awdurdod, nid yw'r gefnogaeth hon wedi bod yn effeithiol eto o ran sicrhau'r canlyniadau a ddeisyfir.

- Cefnogi Trefniadau Gwerth am Arian
  Fel y nodwyd uchod yn yr adroddiad hwn, nid yw adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau Gwerth am Arian a gwerth gorau wedi eu cynnwys ar hyn o bryd yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor.

- Helpu'r Awdurdod i weithredu trefniadau effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â risgiau o ran twyll a llygredd
  Nodwyd fel maes ar gyfer ei ddatblygu ymhellach yn 2014/15, drefniadau'r Cyngor ar gyfer mynd i'r afael â thwyll.

- Hyrwyddo Trefniadau Adrodd Effeithiol a Chyhoeddus i Gydranddeiliaid y Cyngor
  Nid oes gan y Pwyllgor rôl ar hyn o bryd mewn perthynas â hyrwyddo trefniadau adrodd effeithiol a chyhoeddus i gydran ddeiliaid yr Awdurdod. Byddai hyn yn cynnwys adolygu a yw penderfyniad a wnaed gan sefydliadau partner yn parhau i fod yn dryloyw ac yn hwylus i'r cyhoedd ac annog gwell tryloywder.

## 3. CYNLLUN GWEITHREDU EFFEITHIOLRWYDD

**3.1** Mae'r gwaith a wnaed yn y gweithdy ac mewn perthynas â'r gweithdy wedi nodi meysydd y mae angen eu gwella o ran cwrdd ag arferion gorau ac er mwyn sicrhau fod y Pwyllgor yn parhau i ddatblygu o ran ei effeithiolrwydd.

**3.2** Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y gwendidau a nodwyd a chymeradwyo datblygu Cynllun Gweithredu'n nodi'r modd y bwriedir rhoi sylw i'r gwendidau yn 2014/15, pwy fydd yn gwneud hynny ac erbyn pryd. Yna, adroddir yn rheolaidd ar berfformiad yn erbyn y Cynllun Gweithredu i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfodydd.

## 4. ADOLYGIAD O DREFNIADAU GWRTH-DWYLL

**4.1** Bu modd i'r gweithdy drafod prif ganfyddiadau Adroddiad Gwrth-dwyll yr Adran Archwilio Mewnol 1906.13/14 a oedd yn seiliedig ar restr wirio dogfen y Comisiwn Archwilio 'Protecting the Public Purse' a welir yn Atodiad 2.

**4.2** Nodwyd yn yr adroddiad nifer o feysydd lle mae'r trefniadau Gwrth-dwyll ar hyn o bryd yn wan. Ceir manylion am y meysydd hyn yng Nghrynodeb Gweithredol yr adroddiad Archwilio Mewnol uchod - mae crynodeb ohono i'w weld er gwybodaeth yn Atodiad C yr adroddiad hwn.

**4.3** Mae'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) wrthi'n cynnal adolygiad o drefniadau Gwrth-dwyll y Cyngor yn wyneb cynigion i drosglwyddo i'r AGP, Dimau Ymchwilio awdurdodau lleol i Dwyll Budd-dal fel rhan o Un Gwasanaeth Twyll. Fodd bynnag, bydd awdurdodau lleol yn parhau i ddelio gyda rhai tasgau sy'n ymwneud â thwyll.

**4.4** Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y gwendidau a nodwyd a chymeradwyo datblygu Cynllun Gweithredu yn manylu ar y modd y bwriedir delio gyda'r gwendidau yn 2014/15, gan bwy ac erbyn pryd. Adroddir yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio ar berfformiad yn erbyn y Cynllun Gweithredu.

**JOHN FIDOE**
**RHEOLWR ARCHWILIO** **3 Ebrill 2014**

**ATODIAD A**

## CIPFA – Pwyllgorau Archwilio / Canllawiau Ymarferol ar gyfer Awdurdodau Lleol 2013
## Hunanasesiad o Arferion Da

| | Cwestiynau Arferion Da | Oes/Ydi | Yn Rhannol | Na | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pwrpas a Llywodraethiant y Pwyllgor Archwilio** | | | | | |
| 1 | Oes gan yr Awdurdod bwyllgor archwilio pwrpasol? | OES | | | Gweler y Cyfansoddiad - CG yn 3.4.8 |
| 2 | Ydi'r pwyllgor archwilio yn adrodd yn uniongyrchol i'r Cyngor llawn? (yn berthnasol i lywodraeth leol yn unig) | YDI | | | Llinellau adrodd i'r Cyngor mae rhai eitemau megis Strategaeth RhT – SoA yn mynd o'r PA i'r Cyngor Llawn – Adroddiad Blynyddol PA.<br>CG PA 3.4.8.1.8<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Hoffai gael mwy o adborth yn gyffredinol ar effeithiolrwydd / perfformiad y Pwyllgor.<br>Byddai mwy o adroddiadau i'r Cyngor yn fuddiol – efallai ar ffurf adroddiad Amlygu ar faterion allweddol /risgiau a godwyd yn y Pwyllgor Archwilio fel a phryd y mae hynny'n briodol. |
| 3 | Ydi'r cylch gorchwyl yn nodi pwrpas y pwyllgor yn glir yn unol â Datganiad Sefyllfa CIPFA? | | RHANNOL | | Nid yw'r CG yn sôn am bwrpas yn benodol ond mae'r CG yn unol â'r pwrpas a nodwyd gan CIPFA.<br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Mae pwrpas cryno'n cael ei nodi yn y CG ond mae angen ymhelaethu arno er mwyn rhoi mwy o wybodaeth ar bwrpas a swyddogaeth y Pwyllgor. |
| 4 | Ydi rôl a phwrpas y pwyllgor archwilio yn cael eu derbyn a'u deall ar draws yr Awdurdod? | | RHANNOL | | CG wedi ei gynnwys yn y Cyfansoddiad – mae presenoldeb y PW, DBW, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro'n adlewyrchu dealltwriaeth.<br><br>Gellid bod yn fwy rhagweithiol o ran codi proffil – wedi gwahodd Cadeirydd Sgriwtini a'r Arweinydd i'r gweithdy fel man cychwyn.<br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Dylid ystyried sicrhau fod yr Aelodau'n hollol gyfarwydd â'r modd y mae'r Cyngor a'i bwyllgorau'n gweithredu ynghyd â swyddogaeth pob un ohonynt. |
| 5 | Ydi'r pwyllgor archwilio yn rhoi cymorth i'r Awdurdod i gwrdd â gofynion Llywodraethiant dda? | | RHANNOL | | Anodd mesur ond ceir diweddariadau ar y cynllun gweithredu Sicrwydd Llywodraethiant; adroddiadau rheoli risg; Datganiad Llywodraethiant Blynyddol; adolygiad parhaus o'r fframwaith rheoli mewnol ac ati<br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Roedd yr Aelodau'n cytuno ei bod yn anodd penderfynu a oedd y Pwyllgor yn gwneud gwahaniaeth ac yn herio digon yn y meysydd cywir.<br><br>Awgrymwyd y dylid cael calendrau Pwyllgorau Archwilio Awdurdodau eraill yng Nghymru a'u cymharu â bod Aelodau'r Pwyllgor yn ceisio mynychu Pwyllgorau Archwilio Cynghorau eraill a vice versa er mwyn nodi unrhyw arferion da.<br><br>Mae'r Cadeirydd wedi sefydlu log o'r materion a godwyd gan y Pwyllgor sy'n cynnwys dyddiad ar gyfer gweithredu a'r person cyfrifol. |
| 6 | Ydi'r trefniadau i ddal y pwyllgor i gyfrif am ei berfformiad yn gweithredu'n foddhaol? | | | NA | Dim trefniadau penodol ar gyfer hyn ond mae Sgriwtini'n cwblhau **hunanasesiad 'perfformiad' ar ôl pob cyfarfod - efallai yr hoffai'r Aelodau ystyried gwneud rhywbeth tebyg?**<br><br>Gweithdai Blynyddol i adolygu effeithiolrwydd a pherfformiad - Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Roedd yr Aelodau o'r farn fod gan SAC rôl yn hyn o beth ac y dylid gofyn iddynt ddarparu adborth ar ei berfformiad fel Pwyllgor. |


| Swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7 | Ydi cylch gorchwyl y pwyllgor yn rhoi sylw penodol i'r holl feysydd craidd a nodir yn Natganiad Sefyllfa CIPFA? | | | | |
| a | • Llywodraethiant dda | YDI | | | CG - PA - 3.4.8.1.9 ac yn gyffredinol |
| b | • Fframwaith sicrwydd | | | NA | Nid oes cyfeiriad penodol at y Fframwaith yn CG – PA – fodd bynnag mae AGS wedi'i gynnwys ac mae'n ymwneud yn gyffredinol â'r fframwaith. |
| c | • Archwilio mewnol | YDI | | | CG PA – 3.4.8.1.1 |
| ch | • Archwilio allanol | YDI | | | CG PA – 3.4.8.1.1 |
| d | • Adrodd ariannol | YDI | | | CG PA – 3.4.8.1.2 |
| dd | • Rheoli risg | YDI | | | CG PA – 3.4.8.1.9 |
| e | • Gwerth am arian neu werth gorau | | | NA | Dim yn benodol yn CG PA<br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Dylai adroddiadau gynnwys cyfeiriad at y ffaith y cymerwyd GAA i ystyriaeth a'r modd y gwnaed hynny.<br>Dylai rheolwyr fedru dangos fod ganddynt drefniadau yn eu lle i sicrhau GAA.<br><br>Trafodwyd caffael mewn perthynas â GAA ac o ran sicrhau fod cyflenwyr lleol yn cael eu hystyried. |
| f | • Atal twyll a llygredd | YDI | | | CG PA – 3.4.8.1.3 |
| 8 | A oes gwerthusiad blynyddol yn cael ei wneud i asesu a yw'r pwyllgor yn cwrdd â'i gylch gorchwyl a bod sylw digonol yn cael ei roi i'r meysydd craidd? | | RHANNOL | | Hunanasesiad yn cynnwys nifer o feysydd ond nid y cyfan - e.e. CG 3.4.8.1.9 (ii) -' *sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion statudol gan gynnwys Iechyd a Diogelwch'.* Ni chafwyd adroddiad ar I & D - mae yn y calendr ar gyfer 2014/15.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Soniodd Aelodau am y prinder amser sydd ar gael i'r Pwyllgor roi sylw llawn i'r holl faterion yn y CG. Roedd yr Aelodau'n teimlo nad oedd cyfarfod 2-3 awr ar adegau'n ddigon i ymchwilio i'r manylder sydd raid wrtho i ychwanegu gwerth.<br><br>Awgrymwyd y dylid ystyried cyfyngu'r rhaglen i faterion blaenoriaeth a chaniatáu digon o amser i adolygu'r rhain yn fanwl. |
| 9 | Ydi'r pwyllgor archwilio wedi ystyried y materion ehangach a nodwyd yn Natganiad Sefyllfa CIPFA ac a fyddai'n briodol i'r pwyllgor eu cyflawni? | | RHANNOL | | Mae'n adolygu trefniadau RhT;<br>Trosolwg o'r Adroddiad Gwella Blynyddol ac adroddiadau cyhoeddus eraill;<br><br>Dim yn gweithio gyda'r Pwyllgor Safonau i gefnogi moeseg nac yn derbyn ceisiadau gan Bwyllgorau eraill neu swyddogion statudol mewn perthynas â risg.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Trafododd yr Aelodau faterion yn ymwneud ag Adfer ar ôl Trychineb TGCh a'r modd yr adroddir ar y rhain – gan gynnwys y defnydd o arbenigwyr Archwilio TGCh.<br><br>Aeth y drafodaeth rhagddi i ystyried y modd y gellir monitro'r modd yr adroddir ar faterion o bwys i'r Pwyllgor er mwyn sicrhau eu bod yn cael sylw, e.e. materion yn ymwneud ag Adfer ar ôl Trychineb TGCh.<br>Angen mwy o atebolrwydd mewn achosion lle nad yw argymhellion pwysig yn cael eu gweithredu. |
| 10 | Os gwelwyd mai sylw cyfyngedig sy'n cael ei roi i feysydd craidd, a oes cynlluniau wedi eu sefydlu i fynd i'r afael â hynny? | | RHANNOL | | Bydd y Cynllun Gweithredu a luniwyd yn dilyn y Gweithdy yn cynnwys pwyntiau gweithredu i roi sylw i'r meysydd hynny y mae angen eu gwella. |
| 11 | Ydi'r pwyllgor wedi cynnal ei swyddogaeth anymgynghorol trwy beidio â chymryd unrhyw bwerau gwneud penderfyniad nad ydynt yn gyson a'i bwrpas craidd? | YDI | | | Gwneir penderfyniadau'n unol â'r CG |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Aelodaeth a chefnogaeth** | | | | | |
| **12** | A ddewiswyd strwythur a chyfansoddiad effeithiol ar gyfer y pwyllgor archwilio?<br>Dylai hyn gynnwys:- | | | | |
| **a** | • Gwahaniad oddi wrth y pwyllgor gwaith | **YDI** | | | CG PA – 3.4.8.3.2 – Aelodau'r Pwyllgor Gwaith ddim yn gymwys i fod yn aelodau o'r PA.<br>3.4.8.3.5 - Ni ddylai'r Cadeirydd fod yn aelod o grŵp a gynrychiolir ar y Pwyllgor Gwaith. |
| **b** | • Cymysgedd priodol o wybodaeth a sgiliau ymysg yr aelodau | | **RHANNOL** | | Anodd asesu oherwydd nid yw setiau sgiliau aelodau unigol wedi cael ei gyhoeddi'n unman.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Roedd Aelodau'n cefnogi trefniadau i gael gwybodaeth am setiau sgiliau aelodau fel y gellir gwneud penderfyniad ynglŷn â'r gymysgedd briodol o sgiliau. Nid yw'r wybodaeth hon ar gael ar hyn o bryd. |
| **c** | • Pwyllgor o faint hwylus | **YDI** | | | CG PA – 3.4.8.3 Aelodaeth – 8 Aelod o'r Cyngor a 2 Aelod cyfetholedig.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Roedd maint y Pwyllgor yn briodol ond roedd Aelodau'n pryderu ynghylch lefel presenoldeb rhai Aelodau.<br><br>Ystyriwyd nifer y cyfarfodydd hefyd ynghyd â chynnwys y calendr adrodd.<br><br>Hoffai'r Aelodau adolygu nifer y cyfarfodydd ynghyd â chynnwys y calendr adrodd. |
| **ch** | • Os defnyddir aelodau annibynnol, eu bod wedi eu penodi trwy ddefnyddio proses briodol | **YDI** | | | Yn wreiddiol gan Is-bwyllgor o'r PA - hynny wedi ymestyn drwy bleidlais gan y PA yn Rhagfyr 2013. |
| **13** | Oes gan gadeirydd y pwyllgor wybodaeth a sgiliau priodol? | **YDI** | | | Mae'r Cadeirydd yn Gadeirydd Profiadol o'r PA ac mae wedi mynychu nifer o sesiynau hyfforddiant ar feysydd allweddol o waith y Pwyllgor. |
| **14** | Oes trefniadau i gefnogi'r pwyllgor gyda sesiynau briffio a hyfforddiant? | **YDI** | | | Mae'r Pwyllgor hwn wedi cael hyfforddiant cynefino a'r gweithdy hwn. Mae hyfforddiant penodol ar RhT a Rheoli Risg ar y rhaglen hyfforddiant Aelodau a weinyddir gan AD.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Aelodau wedi ystyried materion yn ymwneud â chefnogaeth ehangach megis dilysu adroddiadau GC er enghraifft o ran penderfynu ar gost-effeithiolrwydd a chymharu darpariaeth fewnol neu allanol. Pwy sy'n penderfynu ac ar ba sail? Pwy sy'n dilysu hyn a beth yw'r casgliad? A yw'r bobl iawn yn cael y wybodaeth iawn ar yr adeg iawn?<br><br>Trafododd yr Aelodau achosion busnes Byrddau'r Rhaglen Trawsnewid a'r graddau yr oedd y rhan yn cael eu hadolygu, eu mesur a'u monitro er mwyn sicrhau fod y prosiectau'n cwrdd â'r amcanion gwreiddiol a osodwyd ar eu cyfer. Byddai gwaith monitro o'r fath yn cynnwys adolygiadau ffurfiol ar ôl gweithredu yn erbyn yr amcanion gwreiddiol. |
| **15** | A ydi aelodaeth y pwyllgor wedi ei asesu fel aelodaeth foddhaol yn seiliedig ar y fframwaith sgiliau a gwybodaeth greiddiol? | | | **NA** | Dim hyd y gwyddai'r Rheolwr Archwilio.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Cyfeiriodd yr Aelodau'n ôl at y sylwadau a wnaed ynghylch gwybodaeth a setiau sgiliau yn 12b uchod. |
| **16** | Oes gan y pwyllgor berthynas weithio dda gyda sefydliadau a phobl allweddol, gan gynnwys archwilwyr allanol, archwilwyr mewnol a'r prif swyddog cyllid? | **YDI** | | | Y cyfan yn mynychu pob Pwyllgor Archwilio –<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Roedd yr Aelodau'n teimlo fod y berthynas gyda swyddogion cefnogol yn foddhaol. Mewn perthynas â rhai meysydd, dywedwyd y dylai swyddogion adrodd mewn dull a chan ddefnyddio geiriau sy'n briodol i Aelodau nad ydynt â statws proffesiynol.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau am gyfarfodydd cyn y Pwyllgor gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol er mwyn nodi materion o bwys ac er mwyn darparu adborth dwy ffordd rhwng yr archwilwyr ac Aelodau'r Pwyllgor. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 17 | Ydi'r ysgrifenyddiaeth a'r gefnogaeth weinyddol ar gyfer y pwyllgor yn ddigonol? | YDI | | | Mae Clarcod Pwyllgor yn anfon y rhaglen ac yn cymryd cofnodion. Mae'r Uned Gyfieithu'n mynychu pob cyfarfod. Mae rhaglenni'n cael eu hanfon allan cyn y cyfarfodydd.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Ym marn yr Aelodau, roedd y gefnogaeth yn ddigonol ond dylid rhoi ystyriaeth i amseriad cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r Datganiad Cyfrifon er mwyn sicrhau fod rhaglenni ac adroddiadau gan gynnwys y DC drafft yn cael eu hanfon allan mewn digon o amser i ganiatáu sgriwtini priodol gan Aelodau cyn y cyfarfod o'r Pwyllgor. |
| **Effeithiolrwydd y Pwyllgor** | | | | | |
| 18 | Ydi'r pwyllgor wedi cael sylwadau am ei berfformiad gan y rheini sy'n ymwneud a'r pwyllgor neu sy'n dibynnu ar ei waith? | | | NA | Dim hyd y gwyddai'r Rheolwr Archwilio.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Gofynnodd yr Aelodau i SAC ddarparu adborth o'r fath. Cynhelir arolygiad corfforaethol y flwyddyn nesaf a byddai adborth o'r fath yn amserol. |
| 19 | Ydi'r pwyllgor wedi asesu a yw'n ychwanegu gwerth i'r sefydliad a sut mae'n gwneud hynny? | | RHANNOL | | Trwy hunanasesiad ac adroddiad blynyddol i'r Cyngor.<br><br>Dim yn ffurfiol yn y gorffennol. |
| 20 | Oes gan y pwyllgor unrhyw gynllun gweithredu i wella unrhyw wendidau? | OES | | | Cynhyrchir cynllun gweithredu ar ôl bob Gweithdy a chaiff ei gynnwys yn yr adroddiad ar y gweithdy a'r canlyniadau i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio llawn.<br><br>**Sylwadau'r Gweithdy:**<br>Cynllun gweithredu i gael ei gynhyrchu yn seiliedig ar ganlyniadau'r Gweithdy. |

## Crynodeb o'r Canlyniadau fesul Maes

| **Maes a ystyriwyd** | **Oes/ Ydi** | **Yn rhannol** | **Na** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Pwrpas a Llywodraethiant y Pwyllgor Archwilio | 2 | 3 | 1 | 6 |
| Swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio | 1 | 4 | 0 | 5 |
| Aelodaeth a chefnogaeth | 5 | 0 | 1 | 6 |
| Effeithiolrwydd y Pwyllgor | 1 | 1 | 1 | 3 |
| | **9** | **8** | **3** | **20** |



**ATODIAD B**

## CIPFA – Pwyllgorau Archwilio / Cyfarwyddyd Ymarferol i Awdurdodau Lleol 2013

## Gwerthuso Effeithlonrwydd y Pwyllgor Archwilio

| | Meysydd lle gall y Pwyllgor Archwilio ychwanegu gwerth drwy gefnogi gwelliant | Esiamplau o sut y gall y Pwyllgor Archwilio ychwanegu gwerth a darparu tystiolaeth o effeithlonrwydd | Hunanarfarnu, esiamplau, meysydd o gryfder a gwendidau | Asesiad cyffredinol: 5-1 |
|---|---|---|---|---|
| **1** | Hyrwyddo egwyddorion llywodraethu da a'u cymhwyso i wneud penderfyniad. | Darparu adolygiad cadarn o'r DLIB a'r sicrwydd sy'n ei sylfaenu.<br>Gweithio gydag aelodau allweddol/llywodraethwyr i wella eu dealltwriaeth o'r DLIB a'u cyfraniad iddo.<br>Cefnogi adolygiadau/archwiliadau o drefniadau llywodraethu.<br>Cyfranogi mewn hunanasesiadau o drefniadau llywodraethu.<br>Gweithio gyda phwyllgorau oedolion partner i adolygu trefniadau llywodraethu mewn partneriaethau. | · Adolygiad o'r DLIB;<br>· Cefnogaeth ar gyfer adolygiadau llywodraethiant drwy'r flwyddyn gan AM a SAC ac ati.<br>· Yn gysylltiedig ag adolygu'r DLIB - bod yn rhan o'r broses o gefnogi'r fframwaith sicrwydd Llywodraethiant;<br>· Gweithdai hunanasesu gan gynnwys Llywodraethiant.<br>**Meysydd a awgrymir ar gyfer Gwelliant:**<br>· Trefniadau partneriaeth – adroddiad AM 2013 - angen cynhyrchu fframwaith Partneriaeth -gallai'r Pwyllgor fod yn eiriolwyr yn hyn o beth. | 3 |
| **2** | Cyfrannu tuag at ddatblygu amgylchedd rheoli effeithiol. | Monitro gweithrediad argymhellion gan archwilwyr.<br>Annog perchnogaeth o'r fframwaith rheoli mewnol gan reolwyr priodol.<br>Codi pryderon ynghylch reoliadau gydag uwch reolwyr priodol. | · Monitro cyfradd gweithredu'r adolygiadau AM yn Adroddiad Cynnydd y Rheolwr Archwilio;<br>· Galw ar Reolwyr i egluro gwendidau rheoli mewn adroddiadau coch;<br>·<br>**Meysydd a awgrymir ar gyfer Gwelliant:**<br>· Ymestyn tracio argymhellion i'r holl adroddiadau - angen cefnogi cofrestr ganolog o argymhellion, camau gweithredu a gweithredu. | 4 |
| **3** | Cefnogi'r broses o sefydlu trefniadau ar gyfer llywodraethu risg a chael trefniadau effeithiol i reoli risg. | Adolygu trefniadau rheoli risg a'u heffeithlonrwydd, e.e. meincnodi rheoli risg.<br>Monitro gwelliannau.<br>Dal perchnogion risg i gyfrif am y risgiau mwyaf/strategol. | · Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi parhau i herio'r amser a gymerodd i weithredu'n llawn ar reoli risg yn y Cyngor.<br>· Mae'r Pwyllgor wedi cefnogi'r sefydliad - ond nid yw'r gefnogaeth honno wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau'r canlyniadau a ddeisyfir.<br>**Meysydd a awgrymir ar gyfer Gwelliant:**<br>· Dylai'r Pwyllgor barhau i herio swyddogion ynglŷn â'r rhesymau pam nad yw'r broses hon wedi ymwreiddio'n llwyr. | 1 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **4** | Rhoi cyngor ar ba mor ddigonol yw'r fframwaith sicrwydd ac ystyried a yw sicrwydd yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon. | Nodi anghenion sicrwydd, nodi bylchau neu orgyffwrdd mewn sicrwydd.<br>Edrych i lyfnhau'r broses o gasglu sicrwydd ac adrodd yn ôl.<br>Adolygu effeithlonrwydd darparwyr sicrwydd, e.e. archwilio mewnol, rheoli risg, archwilio allanol. | · Mae'r Pwyllgor wedi dechrau cynnwys yr adolygiad o'r fframwaith sicrwydd Llywodraethiant ar ei galendr ac wedi cefnogi ei ddatblygiad;<br>· Bwriedir mireinio'r broses drwy sefydlu fframwaith sicrwydd Llywodraethiant.<br><br>**<u>Meysydd a awgrymir ar gyfer Gwelliant:</u>**<br>· Ystyried ffyrdd ar gyfer adolygu a mesur effeithiolrwydd archwilio mewnol ac allanol, rheoli risg a darparwyr sicrwydd Llywodraethiant - efallai drwy hunanasesu yr un modd â'r Pwyllgor Archwilio. | 4 |
| **5** | Cefnogi ansawdd y gweithgaredd archwilio mewnol, yn arbennig drwy sicrhau ei annibyniaeth sefydliadol. | Adolygu'r siarter archwilio a'r trefniadau adrodd yn ôl gweithredol.<br>Asesu effeithlonrwydd y trefniadau archwilio mewnol a chefnogi gwelliannau. | · Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r Siarter a'r Protocol Archwilio Mewnol sy'n cynnwys ei annibyniaeth;<br>· Derbyn adroddiadau cynnydd gan AM yn rheolaidd;<br>· Cymeradwyo'r Cynllun AM bob blwyddyn gan gynnwys adolygiad o'r adnoddau sy'n angenrheidiol i weithredu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Archwilio Mewnol.<br><br>**<u>Meysydd a awgrymir ar gyfer Gwelliant:</u>**<br>· Fel yr uchod – gellid ystyried ffyrdd o adolygu a mesur effeithiolrwydd archwilio mewnol a'r risg. Angen i AM wneud hynny bob pum mlynedd mewn PSIAS. | 4 |
| **6** | Cynorthwyo i gyflawni targedau ac amcanion yr Awdurdod drwy roi cymorth gogyfer sicrhau llywodraethu priodol, risg a threfniadau sicrwydd a rheoli. | Adolygu prosiectau a rhaglenni mawr gogyfer sicrhau bod trefniadau llywodraethu a sicrwydd yn eu lle.<br>Adolygu effeithlonrwydd trefniadau rheoli perfformiad. | · Mae'r Pwyllgor yn cynorthwyo yn hyn o beth o ganlyniad i'w waith a'i gefnogaeth yn ystod y flwyddyn.<br>**<u>Meysydd a awgrymir ar gyfer Gwelliant:</u>**<br>· Nid yw'r Pwyllgor yn adolygu prosiectau a rhaglenni mawr;<br>· Nid yw'r Pwyllgor yn adolygu trefniadau perfformiad. | 3 |
| **7** | Cefnogi datblygiad trefniadau cadarn ar gyfer sicrhau gwerth am arian. | Sicrhau bod sicrwydd ar y trefniadau gwerth am arian yn cael ei gynnwys yn y sicrwydd a dderbynnir gan y Pwyllgor Archwilio.<br>Ystyried sut y mae perfformiad o ran gwerth am arian yn cael ei werthuso fel rhan o'r DLIB. | **<u>Meysydd a awgrymir ar gyfer Gwelliant:</u>**<br>· Mae'r casgliad o ran GAA yn cynnwys nifer o elfennau sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac economi ac mae'n fwy pellgyrhaeddol o lawer na materion GAA yn unig.<br>· Nid yw GAA wedi ei gynnwys ar hyn o bryd yn CG y Pwyllgor Archwilio.<br>· Y meini prawf penodol ar gyfer y casgliad ar gyfer GAA yw:<br>· Sicrhau cadernid ariannol (Y PA i adolygu'r SATC);<br>· Herio'r modd y mae'n sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. | 1 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **8** | Cynorthwyo'r Awdurdod i weithredu gwerthoedd llywodraethu da, gan gynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer atal twyll a risgiau o lygredd. | Adolygu trefniadau yn erbyn y safon a osodir yn llyfryn CIPFA *Rheoli'r Risg o Dwyll* (Llyfr Coch 2).<br>Adolygu risgiau twyll ac effeithlonrwydd strategaeth y sefydliad er mwyn rhoi sylw i'r risgiau hynny.<br>Asesu effeithlonrwydd y trefniadau llywodraethu moesegol ar gyfer staff a llywodraethwyr. | • Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cynnwys yr adolygiad o drefniadau Gwrth-dwyll y Cyngor yn ei weithdai blynyddol.<br>• Mae'r Pwyllgor yn derbyn Adroddiad Blynyddol ar Dwyll sy'n manylu ar ganlyniadau'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn gan y Tîm Ymchwilio i Fudd-daliadau a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol.<br>**Meysydd a awgrymir ar gyfer Gwelliant:**<br>• Nid yw adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor ar hyn o bryd ar y risg o dwyll a chamau lliniaru;<br>• Nid yw'r Pwyllgor yn adolygu trefniadau llywodraethiant foesegol i staff ac Aelodau. | 2 |
| **9** | Hyrwyddo proses adrodd yn ôl cyhoeddus ac effeithiol i gydran ddeiliaid yr Awdurdod ac i'r gymuned leol a mesurau i ddarparu tryloywder ac atebolrwydd. | Gwella sut mae'r Awdurdod yn cyflawni ei gyfrifoldebau ar gyfer adrodd yn ôl yn gyhoeddus; er enghraifft, gwell targedu at y gynulleidfa, Cymraeg/Saesneg plaen.<br>Adolygu a yw gwneud penderfyniadau drwy sefydliadau partner yn parhau i fod yn dryloyw ac ar gael i'r cyhoedd ac a yw'n annog mwy o dryloywder. | **Meysydd a awgrymir ar gyfer Gwelliant:**<br>• Nid oes gan y Pwyllgor rôl ar hyn o bryd o ran hyrwyddo adrodd yn effeithiol ac yn gyhoeddus i gydranddeiliaid yr Awdurdod. | 0 |

**CIPFA – Pwyllgorau Archwilio / Cyfarwyddyd Ymarferol i Awdurdodau Lleol 2013**

**Gwerthuso Effeithlonrwydd y Pwyllgor Archwilio**

| | Allwedd Asesu |
|---|---|
| **5** | Tystiolaeth glir ar gael o nifer o ffynonellau bod y Pwyllgor yn weithredol yn cefnogi gwelliannau ar draws pob agwedd o'r maes hwn. Mae'r gwelliannau a wnaed yn rhai y gellir eu hadnabod yn glir. |
| **4** | Tystiolaeth glir o rai ffynonellau bod y Pwyllgor yn weithredol ac yn effeithiol yn cefnogi gwelliannau ar draws rhai agweddau o'r maes hwn. |
| **3** | Y Pwyllgor wedi cael profiad cymysg o gefnogi gwelliannau yn y maes hwn. Mae peth tystiolaeth sy'n dangos eu heffaith ond mae yna hefyd fylchau sylweddol. |
| **2** | Ceir peth tystiolaeth bod y Pwyllgor wedi cefnogi gwelliannau, ond mae effaith y gefnogaeth yn gyfyngedig. |
| **1** | Ni ellir gweld unrhyw dystiolaeth bod y Pwyllgor Archwilio wedi cefnogi gwelliannau yn y maes hwn. |

**ATODIAD C**

# 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

## 1.1 CYFLWYNIAD

Mae archwiliad wedi digwydd o drefniadau atal twyll y Cyngor, er mwyn gweld a chofnodi'r prosesau sydd yn eu lle nawr i ganfod lle mae'r bylchau yn y fframwaith sydd yma ar hyn o bryd i atal twyll.

Mae gan y Cyngor Dîm Ymchwilio i Dwyll Budd-dal Tai wedi'i neilltuo'n benodol i'r gwaith hwnnw tu mewn i Refeniw a Budd-daliadau. Mae Refeniw a Budd-daliadau ei hunan tu mewn i Swyddogaeth Adnoddau'r Cyngor. Yn y Tîm Ymchwilio, mae tri o staff sef Rheolwr Twyll Gweithredol, Ymchwilydd Twyll Budd-dal a Choladwr/wraig Twyll.

Hefyd tu mewn i'r Swyddogaeth Adnoddau mae Tîm Archwilio Mewnol y Cyngor. Yn ogystal â'i rolau mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol mae hefyd yn gyfrifol am gael ac ymchwilio i achosion sy'n cael eu cyfeirio ato o ran twyll gan gyflogeion y Cyngor neu dwyll yn erbyn y Cyngor.

Mae gan y Cyngor Bolisi i Rwystro Twyll a Llygredd, sy'n rhan o Gyfansoddiad y Cyngor. Ym mharagraff 5.6.5.2, mae'r Polisi'n dweud fel hyn: *'Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am gyd-drefnu gweithgareddau'r Cyngor er mwyn gweithredu yn erbyn twyll a llygredd. Bydd y Swyddog, ynghyd â'r Pennaeth Swyddogaeth - Cyfreithiol a Gweinyddiaeth, yn cynghori'r Cyngor, y Pwyllgor Gwaith a Phwyllgorau'r Cyngor ar bolisïau, strategaethau a gweithdrefnau i gefnogi'r polisi hwn.'*

O ran y llwyth gwaith yn 2012/13, fe gafodd cyfanswm o 616 o achosion eu cyfeirio at y Tîm Ymchwilio Budd-daliadau, sef rhai lle gallai fod twyll yn digwydd gyda Budd-dal Tai/Budd-dal y Dreth Gyngor. Roedd 532 o achosion yn werth ymchwilio ymhellach iddynt, a 39 o'r rheiny'n arwain at ryw fath o gosb ffurfiol. Fe gafodd cyfanswm o £236,555 o fudd-dal oedd wedi'i ordalu ei gofnodi fel "twyll a chamgymeriadau" gan yr Adain Atal Twyll yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ystod yr un cyfnod, fe gafodd y Tîm Archwilio Mewnol gyfanswm o 11 o achosion wedi'u cyfeirio atynt o ran cyhuddiadau o dwyll neu gamweithredu arall. Wrth ymchwilio i'r honiadau hyn, fe welwyd bod rheolyddion mewnol gwan mewn rhai enghreifftiau, a thystiolaeth bendant o afreoleidd-dra a/neu dwyll yn digwydd yn ystod dau o'r ymchwiliadau.

Roedd yr adolygiad yma ar ffurf hunan asesiad o arfer a gweithdrefn y Cyngor o'i gymharu gyda'r arfer gorau yn Atodiad 2 'Protecting the Public Purse' y Comisiwn Archwilio, sef rhestr wirio i'r bobl sy'n gyfrifol am lywodraethu. Fe gafodd y rhestr wirio yma ei defnyddio am nad oes unrhyw beth cyfatebol ar gael hyd yma oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Roedd yr archwiliad wedi'i ddylunio i asesu'r rheolyddion oedd yn gweithredu i gadw trefn ar yr amcanion a'r risgiau a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Amcan: | Mae'r Trefniadau Atal Twyll yn unol â'r arfer, polisi a rheoliadau gorau er mwyn bod yn effeithiol wrth atal, canfod a delio'n briodol gyda thwyll ac afreoleidd-dra. |
| Risg: | Bod y Trefniadau Atal Twyll ddim yn unol gyda'r arfer, polisi a rheoliadau gorau a/neu'n methu atal, canfod a delio'n briodol gyda thwyll ac afreoleidd-dra. |

## 1.2 CASGLIAD

Mae'r adolygiad hwn wedi canfod rhai rhannau lle nad yw'r gweithdrefnau ac arferion cyfredol yn cydymffurfio'n llawn gyda gofynion yr arfer gorau perthnasol yn y rhestr wirio i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn Atodiad 2 "Protecting the Public Purse" y Comisiwn Archwilio.

Mae angen ystyried manteision ac anfanteision newid trefniadau atal twyll y Cyngor i fod yn fwy unol gydag arfer gorau, a beth yw'r risgiau wrth beidio gwneud hynny.

## 1.3 CWMPAS YR ADOLYGIAD

Amcan ein harchwiliad ni oedd arfarnu pa mor ddigonol oedd rheoli risg tu mewn i'r system, a'r graddau mae rheolyddion wedi cael eu defnyddio, gyda golwg ar roi barn. Mae gweithgareddau rheoleiddio'n cael eu rhoi yn eu lle i sicrhau bod y risgiau i gyflawni amcanion y sefydliad yn cael eu rheoli'n effeithiol.

**Cyfyngiadau ar gwmpas yr archwiliad:-**

- Roedd yr adolygiad yn golygu hunanasesiad o drefniadau atal twyll cyfredol y Cyngor o'i gymharu gyda'r arfer gorau yn 'Protecting the Public Purse' y Comisiwn Archwilio - Atodiad 2 - "checklist for those responsible for governance."
- Roedd yr adolygiad wedi'i seilio ar drafodaethau gyda'r rheolwyr sy'n gyfrifol am y rhannau yn y rhestr wirio. Doedd dim profion archwilio ffurfiol yn digwydd ar y trefniadau fel rhan o'r adolygiad yma, a nod yr adolygiad oedd canfod a chofnodi'r trefniadau sydd yn eu lle.
- Nid yw'r gwaith yn rhoi unrhyw sicrwydd yn erbyn gwallau, colled neu dwyll nac yn rhoi sicrwydd llwyr nad oes gwallau, colled neu dwyll gwirioneddol yn digwydd. Nid ydym ni'n cadarnhau a yw'r taliadau sydd wedi digwydd yn briodol ynte peidio.

## 1.4 CRYNODEB O'R CASGLIADAU

Mae'r tabl a ganlyn yn tynnu sylw at y nifer o rannau lle gwelwyd bod bylchau yn nhrefniadau cyfredol y Cyngor o'i gymharu gyda'r arfer gorau yn 'Protecting the Public Purse.'

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y prosesau / gweithdrefnau mewn arfer gorau: | 27 | |
| Nifer wedi'u hunan asesu eu bod **yn eu lle yn llawn**: | 15 | 56% |
| Nifer wedi'u hunan asesu **ddim yn eu lle yn llawn**: | 12 | 44% |

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y Cyngor ar hyn o bryd ddim ond yn cydymffurfio'n llawn gyda thua hanner y prosesau y byddai disgwyl amdanynt mewn Awdurdod sy'n cadw at yr arfer gorau atal twyll.

Mae'r Canfyddiadau yn Rhan 3 yn dangos y llefydd lle nad yw'n cydymffurfio, ac yn categoreiddio pa mor bell yn ein barn ni yw'r rhain oddi wrth gadw at yr arfer gorau. Mae'r rhannau gyda'r cefndir tywyll iddynt yn rhai lle rydym ni wedi asesu bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn gyda'r arfer gorau.

Y materion sylweddol rydym ni wedi'u gweld yn yr adolygiad yma yw:-

- Nid yw'r Awdurdod yn codi ymwybyddiaeth nac yn darparu hyfforddiant digonol ar y risgiau posibl o dwyll, ar gyfer staff newydd, y staff presennol, Aelodau etholedig na chontractwyr;
- Nid yw'r Awdurdod wedi ailasesu'r risgiau twyll ers i'r newid ddigwydd yn yr hinsawdd ariannol, nac wedi ailddyrannu staff na newid y cynllun gweithredu atal twyll o ganlyniad;
- Mae Fframwaith Caffael y Cyngor wedi cael ei asesu, ac fe welwyd nad yw'n ffit ar gyfer y pwrpas, a bod angen ei adolygu a'i ddiweddaru;
- Nid yw'r gweithdrefnau gosod contractau wedi cael eu hadolygu ers adeg yr ymchwiliadau gan y Swyddfa Masnachu Teg i drefniadau cartel;
- Does dim digon o weithredu'n digwydd i sicrhau bod yr Awdurdod ddim ond yn caniatáu gostyngiadau a lwfansau i'r rhai sy'n gymwys (Dreth Gyngor);
- Nid yw'r Awdurdod yn gwneud defnydd llawn o gyfatebu data mewnol a phreifat wrth daclo twyll budd-dal Tai a'r Dreth Gyngor;
- Nid oes trefniadau amddiffyn priodol a chymesur wedi dod yn weithredol yn erbyn y risgiau o dwyll sy'n dod i'r golwg mewn ardrethi busnes ac ysgolion.